



Rhan A Cytundeb Prosesu Data – Ffurflen i'w llenwi gan yr Eglwys a'r Argraffydd

Llenwch y bylchau â'r manylion canlynol:

Dyddiad: _____

Enw llawn yr eglwys leol: _____

Cyfeiriad llawn yr eglwys leol: _____

Enw llawn yr Argraffydd: _____

Cyfeiriad llawn yr Argraffydd: _____

Os yw'r Argraffydd yn gwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif y cwmni _____

a chyfeiriad y swyddfa gofrestredig: _____

Nodyn Cyfarwyddyd: Mae angen i'r eglwys leol a'r Argraffydd llenwi Rhan A yn unig. Mae Rhan B yn cynnwys telerau ac amodau safonol EBC ac ni ddylid eu diwygio. Cysylltwch â'r Pennaeth Cefnogaeth Strategol yn Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol os oes unrhyw ymholiadau a hefyd os yw'r ffi sy'n daladwy i'r Argraffydd yn fwy na £10,000.

Os yw'r Gwasanaeth Argraffu yn golygu teipod ac argraffu nifer cytunedig o Adroddiadau Blynyddol i'r Eglwys yn unig, nid oes angen newid yr Manylion Prosesu Data isod. Fodd bynnag, os oes Gwasanaethau Argraffu eraill neu ychwanegol i'w darparu, mae angen newid y Manylion Prosesu Data isod i adlewyrchu hyn. Cysylltwch â Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol am gymorth os oes angen.

MANYLION PROSESU DATA

Y Testun i'w brosesu:

Teiposod ac argraffu nifer cytunedig o Adroddiadau Blynyddol i'r Eglwys.

Cyfnod y Prosesu:

Tra bydd Gwasanaethau Argraffu'n cael eu darparu.

Natur a diben y prosesu:

Y math o brosesu sy'n angenrheidiol at ddibenion darparu Gwasanaethau Argraffu gan gynnwys trefnu, gosod, addasu neu newid, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain.

Math o Ddata Personol:

Enw, cyfeiriad, rhif ffôn, e-bost, Swyddogaeth yr unigolyn, ffotograff, cysylltiad yr unigolyn ag EBC (a fydd yn datgelu ei gred grefyddol, cyfraniadau neu roddion ariannol, manylion personol eraill a ddarperir fel rhan o newyddion yr eglwys neu ei thystiolaeth Gristnogol)

Categoriâu Goddrychau'r Data:

Gweinidogion, Blaenoriaid, Gweithwyr, Cyflogeion, Aelodau, Deiliaid Swydd, Cyfranwyr, Unigolion sy'n gysylltiedig ag EBC, Aelodau o eglwysi eraill.

Llofnodwyd gan _____
(Llofnod) _____
(enw a swyddogaeth o fewn yr eglwys leol)

Ar gyfer ac ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Llofnodwyd gan _____
(Llofnod) _____
(enw a swydd yn yr Argraffydd)

Ar gyfer ac ar ran _____
(Enw llawn yr Argraffydd)

Rhan B Cytundeb Prosesu Data – Telerau ac Amodau

PARTIÖN

- (1) **Eglwys Bresbyteraidd Cymru**, elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif elusen 1132022 a'i swyddfa yng Nghapel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD yn contractio ar ran yr eglwys leol y nodir ei manylion yn **'Rhan A Cytundeb Prosesu Data – Ffurflen i'w llenwi gan yr Eglwys a'r Argraffydd'** ("Eglwys"); a
- (2) **Argraffydd**, y nodir ei fanylion yn **'Rhan A Cytundeb Prosesu Data – Ffurflen i'w llenwi gan yr Eglwys a'r Argraffydd'** ("Argraffydd")

CEFNDIR

- (A) Mae'r Argraffydd wedi cytuno i ddarparu Gwasanaethau Argraffu (fel y'u diffinnir isod) i'r Eglwys.
- (B) Er mwyn darparu'r Gwasanaethau Argraffu, mae angen i'r Argraffydd ymgymryd â'r Prosesu Penodedig (fel y'i diffinnir isod) ar ran yr Eglwys. Wrth wneud hynny, bydd yr Argraffydd yn gweithredu fel prosesydd data.
- (C) Mae'r partion yn dod i'r Cytundeb Prosesu Data hwn ("**Cytundeb**") i gydymffurfio â gofynion y RhCDdD (fel y'u diffinnir isod) mewn perthynas â phenodi prosesydd data.
- (D) Mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys **'Rhan A Cytundeb Prosesu Data – Ffurflen i'w llenwi gan yr Eglwys a'r Argraffydd'** ("Rhan A") a **'Rhan B Cytundeb Prosesu Data – Telerau ac Amodau'** ("Rhan B")

TELERAU CYTUNEDIG

1. Diffiniadau a dehongliad

Mae'r diffiniadau a'r rheolau dehongli canlynol yn gymwys i'r Cytundeb hwn.

1.1 Diffiniadau:

Cyfraith Diogelu Data	<p>sy'n golygu'r deddfau, y rheoliadau, y codau ymarfer a'r cyfarwyddyd a allai fod yn gymwys i barti o bryd i'w gilydd mewn perthynas â phreifatrwydd, defnyddio a/neu brosesu data personol, gan gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">(a) y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (EC) 2016/679 ("RhCDdD"); a(b) Deddf Diogelu Data 2018, <p>ym mhob achos fel y'u diwygiwyd, fel y'u disodlwyd a/neu fel y'u diweddarwyd</p>
------------------------------	---

	o bryd i'w gilydd;
“data personol”, “rheolydd data”, “prosesydd data”, “goddrych data”, “tor-diogelwch data personol”, “trydedd wlad”, “sefydliad rhyngwladol”, “awdurdod goruchwyllo”, “penderfyniad digonolrwydd” a “mesurau diogelu priodol”	a fydd yn golygu'r ystyron a roddir i'r cyfryw dermau (neu unrhyw dermau cyfwerth) o dan Gyfraith Diogelu Data;
Gwasanaethau Argraffu	yw'r gwasanaethau argraffu sydd i'w darparu gan yr Argraffydd i'r Eglwys;
Cyfarwyddiadau Prosesu	yw'r cyfarwyddiadau prosesu a nodir yng nghymal 3, unrhyw gyfarwyddiadau prosesu ychwanegol a nodir yn Rhan A a'r cyfryw gyfarwyddiadau ysgrifenedig eraill y gall yr Eglwys eu darparu i'r Argraffydd o bryd i'w gilydd;
Cyfnod Prosesu	yw'r cyfnod a nodir yn Rhan A, a'r Argraffydd yn cyflawni'r Prosesu Penodedig yn ystod yr amser hwnnw;
Data a Ddiogelir	Sef y mathau o ddata personol a ddisgrifir yn Rhan A mewn perthynas â'r categorïau Goddrychau Data a ddisgrifir yn Rhan A y mae'r Eglwys (neu unrhyw berson ar ran yr Eglwys) yn eu darparu i'r Argraffydd neu'n eu rhannu gyda'r Argraffydd mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau Argraffu neu at ddibenion eu darparu;
Prosesu Penodedig	yw'r prosesu a ddisgrifir yn Rhan A (fel y gellir ei amrywio drwy gytundeb ysgrifenedig y partïon o bryd i'w gilydd), i'w gyflawni gan yr Argraffydd mewn perthynas â'r Data a Ddiogelir.

1.2 Mae cyfeiriad at ysgrifennu neu ysgrifenedig yn cynnwys ffacsys ond nid e-bost.

1.3 Mae'r Cytundeb yn cynnwys Rhan A a Rhan B ac yn eithrio unrhyw delerau eraill. Yn achos gwrthdaro neu amwysedd rhwng unrhyw ddarpariaeth o fewn Rhan B ac unrhyw ddarpariaeth o fewn Rhan A, y ddarpariaeth yn Rhan B fydd yn cael y flaenoriaeth.

2. Ystyriaeth

2.1 Wrth ystyried yr addewidion rhwng y ddwy ochr a nodir yma, mae'r partïon yn cytuno i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yn y Cytundeb hwn.

3. Diogelu Data

- 3.1 Er mwyn darparu'r Gwasanaethau Argraffu i'r Eglwys, bydd angen i'r Argraffydd ymgymryd â'r Prosesu Penodedig. Mae'r partion yn cytuno, wrth wneud hynny:
- (a) mai'r Eglwys fydd y rheolydd data;
 - (b) mai'r Argraffydd fydd y prosesydd data.
- 3.2 Wrth gyflawni eu rhwymedigaethau priodol o dan y Cytundeb hwn, bydd y ddau barti'n cydymffurfio â holl ofynion cymwys Cyfraith Diogelu Data. Mae'r cymal 3.2 hwn yn ychwanegol at rwymedigaethau uniongyrchol parti o dan Gyfraith Diogelu Data, ac nid yw'n rhyddhau, yn gwaredu nac yn disodli'r rhwymedigaethau hynny.
- 3.3 Bydd yr Argraffydd yn cyflawni'r Prosesu Penodedig yn ystod y Cyfnod Prosesu yn ddarostyngedig bob amser i gymal 3.5, ac yn unol â'r Cyfarwyddiadau Prosesu. Ni fydd yr Argraffydd yn defnyddio'r Data a Ddiogelir at unrhyw ddiben heblaw cyflawni'r Prosesu Penodedig.
- 3.4 Caiff yr Argraffydd ymgymryd â'r cyfryw brosesu Data a Ddiogelir y gall fod eu hangen o bryd i'w gilydd yn unol ag unrhyw un o gyfreithiau'r Deyrnas Unedig a/neu'r Undeb Ewropeaidd (neu unrhyw un o'i haelod-wladwriaethau) **AR YR AMOD BOB AMSER** y bydd yr Argraffydd, lle bydd gofyniad o'r fath yn gymwys, yn hysbysu'r Eglwys (oni bai fod cyfraith berthnasol yn gwahardd hynny ar sail bwysig budd y cyhoedd) o'r rhwymedigaeth brosesu dan sylw cyn ymgymryd â'r prosesu.
- 3.5 Bydd yr Argraffydd mewn perthynas â'r Prosesu Penodedig:
- (a) yn sicrhau bod ganddo ar waith fesurau technegol a threfniadaethol priodol i ddiogelu rhag prosesu y Data a Ddiogelir yn anawdurdodedig neu anghyfreithlon, a rhag colli neu ddinistrio neu ddifrodi'n ddamweiniol y Data a Ddiogelir, a bod y cyfryw fesurau yn briodol o ran y drwg a allai ddigwydd yn sgil y cyfryw brosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golli, dinistrio neu ddifrodi damweiniol a natur y Data a Ddiogelir;
 - (b) yn sicrhau bod mynediad i'r Data a Ddiogelir wedi'i gyfyngu'n llwyr i'r personél hynny y mae'n rhaid iddynt wrtho er mwyn darparu'r Gwasanaethau Argraffu a bod y cyfryw personél o dan rwymedigaeth cytundebol i gadw'r Data a Ddiogelir yn gyfrinachol;
 - (c) yn peidio â throsglwyddo unrhyw ran o'r Data a Ddiogelir i drydedd wlad na sefydliad rhyngwladol oni bai:
 - (i) bod caniatâd ysgrifenedig i'r trosglwyddo wedi ei dderbyn gan yr Eglwys ymlaen llaw ;
 - (ii) bod y trosglwyddo dan sylw naill ai'n perthyn i gwmpas penderfyniad digonolrwydd cyfredol gan y Comisiwn Ewropeaidd neu y bydd yn cael ei ddiogelu'n ddigonol gan fesurau diogelu priodol sydd wedi eu rhoi yn eu lle gan naill ai'r Eglwys neu'r Argraffydd;
 - (iii) bod yr Argraffydd yn sicrhau lefel ddigonol o ddiogelu i'r Data a Ddiogelir sy'n cael eu trosglwyddo (fel sy'n ofynnol o dan Gyfreithiau Diogelu Data); a
 - (iv) bod yr Argraffydd yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau rhesymol y cafodd wybod amdanynt ymlaen llaw gan yr Eglwys mewn perthynas â'r trosglwyddo;

- (d) yn darparu i'r Eglwys heb oedi gormodol ac ar draul yr Argraffydd ei hun, y math o gymorth rhesymol y gallai'r Eglwys fod ei angen o bryd i'w gilydd mewn cysylltiad ag:
 - (i) angen yr Eglwys i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gyfraith Diogelu Data i ymateb i geisiadau gan oddrychau data i arfer eu hawliau o dan y cyfryw gyfraith;
 - (ii) rhwymedigaethau'r Eglwys o dan Gyfraith Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu awdurdodau goruchwylio perthnasol am dor-diogelwch data personol, rhoi gwybod am dor-diogelwch data personol i oddrychau data ac asesiadau effaith diogelu data (gan gynnwys, mewn perthynas â'r olaf, unrhyw ofyniad i ymgynghori ag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr mewn cysylltiad â hynny);
- (e) wedi dod yn ymwybodol o dor-diogelwch data personol, bydd yn rhoi gwybod i'r Eglwys (gan roi cymaint o fanylder ag sy'n rhesymol bosibl) heb oedi gormodol, a rhaid i hyn ddigwydd, pa un bynnag, o fewn deuddeg (12) awr i'r Argraffydd ddod yn ymwybodol o'r tor-diogelwch data personol. Wedi hynny bydd yn darparu i'r Eglwys y cyfryw wybodaeth ychwanegol cysylltiedig â'r tor-diogelwch data personol y gall yr Eglwys yn rhesymol fod ei hangen (oddi mewn i amserlen y gall yr Eglwys ei nodi);
- (f) oni bai fod un o gyfreithiau cymwys yr Undeb Ewropeaidd (neu un o'i haelod-wladwriaethau) neu'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod y Data a Ddiogelir yn parhau i gael ei storio (os felly bydd yr Argraffydd yn hysbysu'r Eglwys am y cyfryw ofyniad), bydd yn dileu y Data a Ddiogelir ar unwaith pan derfynir y Cytundeb (sut bynnag y digwydd hynny), neu pan ddaw'r Cytundeb i ben neu bydd yn ei ddychwelyd i'r Eglwys (yn ôl cyfarwyddyd yr Eglwys) ac yn dileu pob copi ychwanegol o'r Data a Ddiogelir; ac
- (g) er mwyn profi ei fod yn cydymffurfio â'r cymal 3 hwn a Chyfraith Diogelu Data bydd:
 - (i) yn cadw cofnodion llawn a chywir mewn perthynas â'i weithgareddau prosesu data ac yn darparu'r cyfryw rannau o'r cofnodion hynny a allai fod yn berthnasol i'r Prosesu Penodedig i'r Eglwys ar gais; ac
 - (ii) yn caniatáu i'r Eglwys (a/neu archwilwyr dynodedig yr Eglwys) gynnal y cyfryw archwiliadau ac arolygiadau mewn perthynas â rhwymedigaethau'r Argraffydd o dan y cymal 3 hwn y gall yr Eglwys yn rhesymol eu hystyried yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd (gan gynnwys darparu neu sicrhau y cyfryw fynediad y gall yr Eglwys yn rhesymol ei geisio at unrhyw gofnodion, safleoedd, cyfarpar neu bersonél yr Argraffydd neu unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran yr Argraffydd).

3.6 Ni chaiff yr Argraffydd benodi trydydd parti i gyflawni unrhyw rai o'i rwymedigaethau prosesu data o dan y Cytundeb hwn heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan yr Eglwys ymlaen llaw. Os bydd yr Eglwys yn rhoi ei chaniatâd i benodi y cyfryw trydydd parti ("**Prosesydd Cymeradwy**"):

- (a) bydd yr Argraffydd yn gosod ar y cyfryw Brosesydd Cymeradwy rwymedigaethau sy'n cyfateb i'r rhai sydd wedi eu nodi yn y cymal 3 hwn; a
- (b) bydd yr Argraffydd yn parhau'n gwbl atebol i'r Eglwys am gyflawni ei rwymedigaethau o dan y cymal 3 hwn.

4. Tymor a therfynu

- 4.1 Yn ddarostyngedig i gymal 4.2, bydd y Cytundeb hwn yn parhau mewn llawn rym ac yn gwbl weithredol cyhyd ag y bydd yr Argraffydd yn cadw unrhyw Ddata a Ddiogelir mewn perthynas â'r Gwasanaethau Argraffu yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth ("**Tymor**").
- 4.2 Heb effeithio ar unrhyw hawl neu ddatrysiad arall sydd ar gael iddi, caiff yr Eglwys derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Argraffydd.
- 4.3 Bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn a ddylai ddod i rym neu a ddylai barhau mewn grym yn ffurfiol neu drwy oblygiad wrth derfynu'r Cytundeb neu ar ôl ei derfynu er mwyn diogelu'r Data a Ddiogelir, yn parhau i fod yn gwbl weithredol.

5. Hysbysiad

- 5.1 Rhaid cyflwyno unrhyw hysbysiad neu ohebiaeth arall i barti o dan neu mewn perthynas â'r Cytundeb hwn yn ysgrifenedig a rhaid ei anfon i'r canlynol:

Ar gyfer yr Eglwys: Pennaeth Cefnogaeth Strategol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD.

Ar gyfer yr Argraffydd: Enw llawn yr Argraffydd a Chyfeiriad llawn yr Argraffydd a nodir yn Rhan A.

- 5.2 Nid yw cymal 5.1 yn gymwys i gyflwyno unrhyw achos neu ddogfennau eraill mewn unrhyw achos cyfreithiol neu, lle bo'n berthnasol, unrhyw gyflafareddu neu unrhyw ddull arall o ddatrys anghydfod.
- 5.3 Nid yw hysbysiad a roddir o dan y Cytundeb hwn yn ddilys os caiff ei anfon mewn e-bost.

6. Cyfraith llywodraethu

Bydd y Cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu gais sy'n codi ohono neu mewn cysylltiad ag ef, ei gynnwys neu ei ffurfiant (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau digontract) yn cael eu llywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'u dehongli yn unol â'r gyfraith honno.

7. Awdurdodaeth

- 7.1 Cytuna'r ddau barti yn ddiwrthdro y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i ddatrys unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n codi o'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, ei gynnwys neu ei ffurfiant (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau digontract).

Gwnaethpwyd y Cytundeb hwn ar y dyddiad a nodir ar ddechrau Rhan A.